

Alun Davies AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus

11 Gorffennaf 2018

Annwyl Alun

Canllawiau Dwyochrog ar Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe, trafododd yr aelodau eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 2 Gorffennaf 2018 ynghylch Concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n nodi'r trefniadau gweithio rhwng y ddau sefydliad.

Er eu bod yn croesawu'r Concordat, nododd yr aelodau fod paragraff 20 o'r Concordat, sy'n ymwneud â datblygu cynigion deddfwriaethol, yn cyfeirio at Ganllawiau Dwyochrog Llywodraeth Cymru o ran Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18 ac, fel y cyfryw, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi rhagor o fanylion am y Canllawiau Dwyochrog.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

